Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Y Rhyl

Grange Road
Y Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 4BY

Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Y Rhyl

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Y Rhyl |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1167 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1167 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.3%) | 30.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 9.0%) | 8.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.6% |
| Partner arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/06/2025 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/10/2022 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/05/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Uwchradd Y Rhyl yn gymuned ofalgar a chynhwysol ble mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar gefnogi lles disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan staff. Mae'r ysgol yn darparu cymorth bugeiliol a lles helaeth, yn cynnwys darpariaeth arbenigol fuddiol ar gyfer disgyblion bregus a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae disgyblion yn elwa ar drefniadau pontio cynhwysfawr, arweiniad defnyddiol ar yrfaoedd ac ystod werthfawr o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol. Mae gan arweinwyr gysylltiadau cryf â'r gymuned ehangach ac maent yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn briodol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol, o leiaf, yn eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu'n barchus mewn gwersi. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd gwaith pwrpasol â disgyblion ac yn defnyddio trefniadau dosbarth, esboniadau a holi addas i gefnogi dysgu. Lle mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau yn ofalus, yn defnyddio modelu yn fedrus ac yn holi cwestiynau sy'n annog disgyblion i feddwl yn ddwysach. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn darparu her ddigonol nac yn addasu dysgu yn ddigon da i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn rhy oddefgar ac yn gwneud cynnydd mwy cyfyngedig. Yn ychwanegol, mae ansawdd yr adborth yn anghyson ac nid yw bob amser yn cynorthwyo disgyblion yn ddigon da i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, gan gynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddilyn ystod o lwybrau galwedigaethol trwy waith yr ysgol gyda phartneriaid allanol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynllunio'n ddigon strategol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn datblygu eu medrau darllen, ysgrifennu, siarad a rhifedd yn ddigon da. Mae presenoldeb yn gwella'n raddol ac mae staff yn gweithio'n bwrpasol gyda disgyblion a theuluoedd, er bod presenoldeb a chyfraddau absenoldeb parhaus yn destun pryder o hyd.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddiben moesol cryf. Mae arweinwyr yn gweithio'n hynod effeithiol i gefnogi lles disgyblion. Mae uwch arweinwyr wedi dechrau blaenoriaethu gwelliannau mewn addysgu a deilliannau disgyblion ar fwy o frys, ac maent yn cryfhau dysgu proffesiynol a phrosesau hunanwerthuso. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith yr addysgu ar gynnydd a medrau disgyblion, ac mae diffyg manwl gywirdeb i gynllunio gwelliant yn y maes hwn. Yn ychwanegol, nid yw uwch arweinwyr yn dwyn arweinwyr canol i gyfrif yn ddigon cyson am ansawdd ac effaith eu gwaith.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Gwella ansawdd yr addysgu fel bod disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da

A2 Cryfhau arweinyddiaeth o ran datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gynyddol, a'r ddarpariaeth ar ei gyfer

A3 Gwella presenoldeb

A4 Cryfhau arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd ar bob lefel, yn enwedig o ran addysgu a dysgu

A5 Mireinio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel bod arweinwyr ar bob lefel yn canolbwyntio'n fanwl gywir ar effaith yr addysgu ar gynnydd a medrau disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen gwelliant sylweddol yn gysylltiedig â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu yn Ysgol Uwchradd Y Rhyl. Maent yn groesawgar ac yn gwrtais ag ymwelwyr ac yn rhyngweithio'n barchus â'u cyfoedion a'u hathrawon. Maent yn cyfranogi'n gadarnhaol mewn trafodaethau pâr a dosbarth cyfan, yn ymdawelu'n gyflym i weithio ac yn dal ati i ganolbwyntio'n briodol trwy gydol gwersi, ar y cyfan. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion hefyd yn cefnogi ac yn annog eu cyfoedion yn hynod effeithiol wrth weithio mewn parau a grwpiau bach, sy'n adlewyrchu ymdeimlad cryf yr ysgol o gymuned.

At ei gilydd, mae mwyafrif o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag ADY, yn gwneud o leiaf cynnydd priodol mewn gwersi. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn addas, ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon i dasgau a chysyniadau newydd. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion ac yn defnyddio arferion ystafell ddosbarth effeithiol i gefnogi dysgu. Maent yn dangos gwybodaeth bwnc gadarn ac yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn briodol. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu'n synhwyrol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn darparu esboniadau a chyfarwyddiadau clir. Maent yn gofyn cwestiynau addas i wirio dealltwriaeth disgyblion, modelu dysgu llwyddiannus ac yn defnyddio adnoddau'n briodol i gefnogi ymgysylltiad a chynnydd.

Mae ychydig o athrawon yn dangos brwdfrydedd ac angerdd am eu pynciau. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio modelu yn fedrus i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion, cynllunio gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu annibynnol ac yn defnyddio holi'n bwrpasol i ysgogi meddwl dyfnach. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o frwdfrydedd ac ymgysylltiad yn eu dysgu ac yn myfyrio'n ystyriol ar ansawdd eu gwaith. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion mewn addysgu yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn darparu her ddigonol, ac ni chaiff gweithgareddau dysgu eu haddasu'n ddigon da i ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion, yn enwedig ar gyfer y rhai mwy abl. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu ac nid ydynt yn holi disgyblion yn ddigon da i wirio'u dealltwriaeth. Mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn mynd i'r afael â goddefgarwch disgyblion yn ddigon da ac nid ydynt yn mynnu eu sylw cyn rhoi esboniadau a chyfarwyddiadau.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth addas ar lafar sy'n helpu disgyblion i wella'u gwaith. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn darparu adborth manwl gywir ar lafar ac yn ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â meini prawf llwyddiant sy'n helpu disgyblion i ymateb yn ystyrlon a gwella ansawdd eu gwaith. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth

ysgrifenedig yn rhy amrywiol ar draws pynciau, ac oddi mewn iddynt. Yn rhy aml, mae diffyg manwl gywirdeb mewn adborth ac nid yw'n nodi'n ddigon clir beth mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella. Nid yw athrawon yn mynd i'r afael â chamsyniadau a gwallau llythrennedd yn ddigon cyson.

## Medrau

Ni chaiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn gynyddol ei chynllunio'n strategol na'i chydlynu yn ddigon da. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion gyfleoedd digonol i gymhwyso a datblygu'r medrau hyn mewn ystod o gyd-destunau perthnasol a heriol.

## Llythrennedd

Wrth ddarllen ar draws y cwricwlwm, mae llawer o ddisgyblion yn dod o hyd i wybodaeth, a'i hadalw, o ystod o destunau yn briodol. Mae tua hanner y disgyblion yn gwneud anodiadau priodol ar y testunau y maent yn eu darllen a gallant nodi elfennau tebyg a gwahaniaethau rhwng dau destun yn addas, er enghraifft mewn Saesneg pan maent yn cymharu buddion bwyta gwahanol drychfilod. O roi'r cyfle iddynt, gall y disgyblion hyn grynhoi testunau'n briodol a gwneud casgliadau addas i ddadansoddi a dehongli ystyr mewn gwahanol ddeunyddiau darllen. Fodd bynnag, mae tua hanner ohonynt yn cael trafferth cymhwyso'u medrau dod i gasgliad yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, maent yn gwneud sylwadau arwynebol am yr hyn y maent wedi'i ddarllen. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau darllen hynod wan ac ni allant ddarllen gwahanol destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwrando ac yn ymateb i gwestiynau yn briodol, ac mae tua hanner ohonynt yn defnyddio ystod o eirfa sy'n benodol i bwnc yn addas. Mae ychydig o ddisgyblion yn hynod huawdl ac yn trafod eu dysgu gydag eglurder a hyder. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio geirfa fwy soffistigedig yn dda ac yn rhoi ymatebion estynedig i gwestiynau athrawon. Fodd bynnag, mae tua hanner y disgyblion yn cynnig ymatebion byr ac annatblygedig yn unig, ac yn defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa. Ni chaiff y disgyblion eu herio na'u cefnogi'n ddigon da gan eu hathrawon i wella ansawdd eu hymatebion ar lafar.

Ni chaiff disgyblion gyfleoedd digonol i ddatblygu neu wella'u medrau ysgrifennu. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu eu gallu i ysgrifennu darnau estynedig yn ddigon da. Gall mwyafrif o ddisgyblion drefnu eu hysgrifennu yn baragraffau yn gywir. Mae lleiafrif ohonynt yn addasu tôn ac arddull eu hysgrifennu at wahanol ddibenion ac yn defnyddio ystod addas o eirfa sy'n benodol i bwnc i fynegi eu syniadau. O gael y cyfle, mae ychydig o ddisgyblion yn cynllunio'u hysgrifennu yn bwrpasol i drefnu eu syniadau yn effeithiol. Mae'r disgyblion hyn yn ystyried cynnwys a geirfa eu hysgrifennu yn ofalus ac yn gwneud

dewisiadau mwy soffistigedig o ran sut i ennyn diddordeb y darllenydd. Mae tua hanner y disgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu sy’n rhy fyr a heb gywirdeb technegol.

### Rhifedd

Mae tua hanner y disgyblion yn meddu ar fedrau rhif cadarn a gallant ddefnyddio y bedair rheol rhif yn briodol, er enghraifft wrth weithio gyda chymarebau. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o geometreg a mesur. Mae tua hanner y disgyblion yn llunio a dehongli ystod o graffiau yn gywir. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn dangos dealltwriaeth eang ar draws ystod o destunau; er enghraifft, gallant ddatrys problemau onglau cyfansawdd yn cynnwys polygonau a llinellau paralel. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemateg a rhifedd yn ddigon da. O ganlyniad, mae tua hanner y disgyblion yn meddu ar fedrau rhif gwan. Nid ydynt yn dangos eu gwaith yn ddigon clir neu’n llunio graffiau a diagramau â manwl gywirdeb digonol. Mae hyn yn rhwystro’u gallu i alw dysgu blaenorol i gof a chymhwyso’u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn cyd-destunau perthnasol.

### Medrau digidol

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn addas mewn ychydig o bynciau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn gwersi cerddoriaeth, maent yn defnyddio meddalwedd i greu eu haddasiadau cerddoriaeth eu hunain, ac yn y celfyddydau perfformio, maent yn defnyddio offer digidol i adolygu a gwerthuso’u perfformiadau. Mewn gwersi cymhwysedd digidol, mae disgyblion yn defnyddio meddalwedd codio i greu eu tudalennau gwe eu hunain.

### Cymraeg

Mae’r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd difyr i ddisgyblion ddysgu a gwerthfawrogi’r Gymraeg a’i diwylliant. Er enghraifft, mae disgyblion yn perfformio yn Gymraeg i breswylwyr mewn cartref i’r henoed, yn cystadlu yng nghystadlaethau’r Urdd ac yn ymweld â gwersylloedd preswyl yng Nglan Llyn a Chaerdydd. Mae’r ysgol yn hyrwyddo’r Gymraeg yn dda, er enghraifft trwy arddangosfeydd ar waliau, ffocws wythnosol ar ymadroddion Cymraeg a chynnig gwersi Cymraeg i staff. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer cymhwyster TGAU mewn Cymraeg ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i orchmynion a chyfarchion syml yn Gymraeg. Maent yn ynganu geiriau Cymraeg yn glir pan ofynnir iddynt, ond nid oes ganddynt hyder i sgwrsio yn Gymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau adalw priodol i ddod o hyd i ffeithiau mewn testunau syml i ateb cwestiynau syml. Maent yn ysgrifennu brawddegau sylfaenol gan ddilyn strwythur a phatrwm, ac mae ychydig ohonynt yn ysgrifennu darnau o destun estynedig mwy datblygedig. Fodd bynnag, mae mwyafrif y disgyblion yn dibynnu gormod ar restrau geirfa a phatrymau brawddeg

strwythuredig yn hytrach na datblygu eu medrau siarad ac ysgrifennu. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'w gwersi Cymraeg.

## Y cwricwlwm

Mae arweinwyr yn cynllunio'r cwricwlwm yn briodol yn unol â gwerthoedd yr ysgol, sef 'Da, Dewr, Hapus ac Iach'. Ym Mlynyddoedd 7 i 9, mae'r cwricwlwm yn galluogi disgyblion i elwa ar ystod eang o brofiadau ac yn adlewyrchu cyd-destun lleol yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r ffordd y caiff amser cwricwlwm ei ddyrannu a'i gynllunio yn golygu bod dyfnder a chyflymdra cynnydd yn anghyson ar draws pynciau.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o ddewisiadau pwnc ym Mlynyddoedd 10 ac 11 sy'n cefnogi anghenion a diddordebau disgyblion yn addas. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn dilyn cymwysterau nad ydynt yn darparu lefel addas o her i bob un ohonynt, yn enwedig y disgyblion mwy abl. Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n bwrpasol â phartneriaid allanol i ddarparu ystod o ddewisiadau galwedigaethol ym Mlynyddoedd 10 ac 11, fel adeiladu, gwallt a harddwch a gofal anifeiliaid. Mae trefniadau cwricwlwm amgen buddiol yn ychwanegu ymhellach at ddarpariaeth yr 'Hafan'. Mae arweinwyr yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gallu astudio'u dewis gyrsiau ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Mae rhieni a disgyblion yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt pan mae disgyblion yn gwneud eu dewisiadau ynghylch opsiynau.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cefnogi datblygiad personol disgyblion yn effeithiol ac yn eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol yn addas. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael ag ystod o themâu perthnasol, yn cynnwys perthnasoedd parchus, diogelwch ar-lein a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Caiff y gwaith hwn ei gryfhau gan amrywiaeth eang o bartneriaid allanol, fel Heddlu Gogledd Cymru ac elusen sy'n cefnogi gofalwyr ifanc.

Mae'r ysgol yn cynnig rhaglen werth chweil o weithgareddau a phrofiadau allgyrsiol i gyfoethogi dysgu disgyblion a chefnogi eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o glybiau chwaraeon a chlybiau creadigol fel pêl-fasged a chlwb y celfyddydau perfformio. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn elwa ar raglen helaeth o dripiau ac ymweliadau, yn cynnwys ymweliadau ag atyniadau lleol fel Castell Rhuddlan a phrofiadau rhyngwladol i Madrid a Moroco.

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei darpariaeth ar gyfer addysg yn gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith, gan ddarparu gwersi dynodedig o Flwyddyn 9 ymlaen. Caiff disgyblion ym Mlwyddyn 10 gyfleoedd buddiol i fynd ar leoliadau profiad gwaith, wedi eu cefnogi gan Gyrfa Cymru, mewn ystod o sectorau.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae diwylliant cryf o ofal a chynhwysiant yn Ysgol Uwchradd Y Rhyl sy'n cefnogi lles disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn rhoi lles emosiynol a phersonol disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol trwy weithgareddau amser dosbarth, gwasanaethau a chymorth mentora buddiol. Mae'r ysgol yn darparu ymyriadau lles helaeth ac ymatebol, yn cynnwys cwnsela, grwpiau anogaeth a chymorth iechyd meddwl. Mae'r 'Hwb Lles' yn darparu amgylchedd tawel a chefnogol lle mae staff medrus yn ymateb yn effeithiol i anghenion emosiynol ac iechyd disgyblion. Mae partneriaethau sefydledig â sefydliadau fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gwasanaethau ieuenctid a Young Minds yn gwella'r cymorth ar gyfer disgyblion bregus.

Mae trefniadau pontio'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n symud o ysgolion cynradd partner i Flwyddyn 7 yn gynhwysfawr ac wedi eu cynllunio'n dda. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau rheolaidd, nosweithiau gwybodaeth, 'Wythnos Bontio' a rhaglen gwyliau haf 'Bwyd a Hwyl'. Mae disgyblion yn cael cyngor ac arweiniad defnyddiol ar gyfer eu camau nesaf ar ôl Blwyddyn 11. Mae'r ysgol yn darparu arweiniad buddiol ar yrfaoedd trwy wersi gyrfaoedd dynodedig, partneriaethau allanol cryf a chymorth gan ymgynghorydd arbenigol. O ganlyniad i gymorth targedig, ychydig iawn o'r rhai sy'n gadael yr ysgol sydd wedi mynd i addysg, cyflogaeth na hyfforddiant dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae gan yr ysgol systemau sefydledig i hyrwyddo presenoldeb fel gwobrau, tablau cynghrair a gwasanaethau i godi ymwybyddiaeth o bresenoldeb. O ganlyniad, mae disgyblion yn deall disgwyliadau'r ysgol ac yn gwybod beth yw eu cyfraddau presenoldeb unigol. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb yn agos ac yn darparu cymorth buddiol i helpu disgyblion i wella'u presenoldeb. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio'n gryf ar feithrin perthnasoedd â disgyblion a'u teuluoedd i gefnogi ailymgysylltu â'r ysgol. At ei gilydd, bu gwelliant mewn cyfraddau presenoldeb, gan gynnwys ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ym mlwyddyn academaidd 2024-2025. Yn ychwanegol, mae data heb ei wirio yn dangos gwelliannau parhaus yn ystod y flwyddyn academaidd hon o gymharu â'r un cyfnod yn 2024-2025. Fodd bynnag, mae presenoldeb yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig a phresenoldeb ysgolion tebyg, tra bod absenoldebau parhaus yn uwch nag ydynt mewn ysgolion tebyg.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn i ddelio ag unrhyw achosion o ymddygiad heriol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn glir ac yn cael eu deall yn dda gan staff a disgyblion. Mae yr 'Hafan', sef darpariaeth amgen yr ysgol, yn helpu disgyblion sy'n ei mynychu i wella'u hymddygiad a rheoleiddio eu hemosiynau yn effeithiol. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwerthfawrogi systemau gwobrau'r ysgol a'r pwyslais y mae'r ysgol yn ei roi ar ddathlu llwyddiant.

Mae gan yr ysgol ystod ddatblygedig o gyfleoedd arweinyddiaeth i ddisgyblion, yn cynnwys y Cyngor Ysgol, yr uwch dîm arweinyddiaeth disgyblion, y Criw Cymraeg,

hyrwyddwyr gwrthfwlio a llysgenhadon gwrth-hiliaeth. Mae'r cyfleoedd arweinyddiaeth hyn yn gynhwysol, gyda chynrychiolaeth o grwpiau bregus fel gofalwyr ifanc a disgyblion ag ADY. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn cyfrannu'n gadarnhaol at fentrau lles a gwrthdlodi, yn cynnwys banciau bwyd a'r cynllun cyfnewid gwisg ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnwys diwylliant cadarn o ddiogelu, lle mae staff yn rhoi diogelwch a lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith. O ganlyniad, dywed llawer o ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac nad yw bwlio yn destun pryder iddyn nhw. Ceir systemau a phrosesau effeithiol i gofnodi unrhyw bryderon ynghylch diogelu, ac ymateb iddynt, ac mae pob un o'r staff yn cael hyfforddiant diogelu priodol. Mae arweinwyr yn gweithio'n gynhyrchiol gydag asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion hynod fregus, ac yn dilyn gweithdrefnau'r awdurdod lleol, lle bo'n briodol.

Mae staff yn dangos ymrwymiad cryf i gefnogi disgyblion ag ADY. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion a'u teuluoedd. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i nodi a chefnogi disgyblion ag ADY, ac mae'n cynnig ystod werthfawr o ddarpariaethau i ddiwallu eu hanghenion. Mae canolfan 'Gyflawni' ('Achieve') yn darparu amgylchedd croesawgar lle mae disgyblion ag ADY yn elwa ar ymyriadau teilwredig buddiol. Mae trefniadau pontio estynedig yr ysgol yn cefnogi disgyblion ag ADY yn dda. Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion ag ADY. Yn ychwanegol, maent yn ymgysylltu'n dda â'r awdurdod lleol i ddarparu cymorth defnyddiol a chydlynus ar gyfer disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r tîm ADY yn darparu proffiliau un dudalen defnyddiol i helpu athrawon i gynllunio'u gwersi. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon effeithiol i addasu dysgu i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd disgyblion unigol ag ADY yn agos. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ADY yn ddigonol nac yn cynllunio'n ddigon miniog ar gyfer gwelliant.

## Arwain a gwella

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir, y mae diben moesol cryf yn sail iddi, i gefnogi pob aelod o gymuned yr ysgol 'i fod y gorau y gallant fod'. Mae wedi sicrhau ymrwymiad i'r weledigaeth hon, ac mae arweinwyr a staff yn cefnogi cyflawni'r weledigaeth ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cryfhau ei chyfathrebu â theuluoedd, er mwyn rhoi'r ysgol yn ganolog i'w chymuned. Er enghraifft, mae'r cylchlythyr wythnosol yn rhoi trosolwg defnyddiol o waith yr ysgol ac yn dathlu cyflawniadau disgyblion.

Mae rolau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth yn glir ac yn cael eu deall yn dda, ar y cyfan. Mae'r arweinyddiaeth i gefnogi lles disgyblion yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae arweinwyr wedi cynnal diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i

diwylliant yn briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol eraill, fel gwella addysgu a dysgu, datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, a chodi cyfraddau presenoldeb, yn ddigon da.

Ceir trefniadau priodol ar gyfer rheolaeth llinell, a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Er bod arweinwyr canol yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt, mae gormod o amrywiad o ran pa mor dda y mae uwch arweinwyr yn eu dwyn i gyfrif. Mae arweinwyr canol yn cyfarfod â'u timau yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar ansawdd yr addysgu na'r cynnydd a wna disgyblion dros gyfnod.

Mae prosesau adolygu datblygiad proffesiynol yr ysgol yn glir ac yn cyd-fynd yn addas, ar y cyfan, â rolau a blaenoriaethau ysgol gyfan. Fodd bynnag, mae'r amcanion yn aml yn eang, sy'n ei gwneud yn anodd i staff fesur y cynnydd a wnaed. Mae'r ysgol yn sefydlu diwylliant dysgu proffesiynol gyda ffocws craffach ar addysgu. Yn ychwanegol, darperir cyfleoedd priodol i staff ddatblygu'n arweinwyr trwy gymorth mewnol a chyrsiau allanol.

Ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi ymgysylltu â disgyblion, rhieni, staff a'r gymuned ehangach i sefydlu dealltwriaeth glir a chywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. O ganlyniad, mae wedi nodi angen brys i sicrhau gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a deilliannau disgyblion. Mae 'Adolygiadau Addysgu a Dysgu' tymhorol yn defnyddio teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a holi barn disgyblion. Mae arweinwyr yn dadansoddi data yn addas i gasglu trosolwg bras o berfformiad yn eu meysydd. O fewn yr adolygiadau addysgu a dysgu, mae arweinwyr canol y cwricwlwm yn elwa ar arsylwadau ar y cyd ag uwch arweinwyr. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth yn ôl ei heffaith ar gynnydd disgyblion yn ddigon da. At ei gilydd, mae arweinwyr yn nodi blaenoriaethau gwella synhwyrol sy'n cynnwys cryfhau arweinyddiaeth, gwella addysgu a gwella deilliannau disgyblion. Ar adegau, nid yw arweinwyr yn cynllunio gwelliannau'n ddigon manwl gywir i sicrhau eu bod yn amserol.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth addas o sefyllfa ariannol yr ysgol. Mae diffyg yng nghyllideb yr ysgol, sydd wedi cael ei gytuno gan yr awdurdod lleol. Ceir systemau priodol ar gyfer monitro'r gyllideb, ac mae arweinwyr yn ystyried goblygiadau staffio ac adnoddau yn briodol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agos ag anghenion disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn angerddol ac ymroddgar. Maent yn datblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol ac yn dechrau cryfhau capasiti, pa mor weladwy y maent a chymorth ar gyfer arweinwyr. Maent wedi datblygu dealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Er enghraifft, mae ganddynt drosolwg manwl o sut mae'r ysgol yn cefnogi lles disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei strwythurau llywodraethu trwy gyflwyno is-bwyllgorau dynodedig. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y gwaith hwn.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gref o'r cyd-destun lleol, ac maent yn gweithio'n bwrpasol i liniaru effaith tlodi ar les a dyheadau disgyblion. Maent yn defnyddio ystod o wybodaeth yn briodol i nodi anghenion disgyblion o aelwydydd incwm isel ac yn darparu cymorth addas ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. Mae gan arweinwyr drosolwg bras o sut caiff cyllid grant, yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, ei ddefnyddio. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio nac yn gwerthuso'n ddigon da p'un a yw gwariant yn gwella addysgu neu'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae cyfraddau presenoldeb ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwella. Fodd bynnag, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad y disgyblion hyn wedi parhau islaw perfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg, yn enwedig mewn rhifedd a gwyddoniaeth.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Er bod arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnydd o'r grant datblygu disgyblion, mae diffyg wedi'i gytuno yng nghyllideb yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  08/07/2026